

ASTUDIAETH ACHOS

Cyfres Darlithoedd Iechyd a Lles Prifysgol Bangor

"Rhoddodd y darlithoedd hyn i mi'r ysbrydoliaeth i ddychwelyd i weithio yn fwy gobeithiol a chreadigol gyda'r bobl rwy'n gofalu amdanynt"

Gwelodd Prifysgol Bangor a Choleg Llandrillo Cymru angen am hyfforddiant ychwanegol ar destunau iechyd a lles ac ar y cyd fe wnaethant ddatblygu cyfres o ddarlithoedd a gomisiynwyd gan Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Rhoddai'r darlithoedd hyn y cyfle i roi sylw i amrediad eang o destunau (e.e. rheoli straen, maeth i blant a rheoli clefydau cronig) gerbron cynulleidfa o nid yn unig weithwyr yn y sector iechyd ond y cyhoedd yn gyffredinol hefyd. Nod y darlithoedd hyn oedd gwella sgiliau'r gweithlu ar adeg pan oedd prinder cyllid ar gyfer hyfforddiant a datblygu.

Roedd y testunau a gafodd sylw yn y gyfres gyntaf o ddarlithoedd yn seiliedig ar fudd y cyhoedd gyda'r ail a'r drydedd yn seiliedig ar adborth. Yn rhan gyntaf y digwyddiad, cyflwynodd y darlithwyr yr ymchwil diweddaraf ar destunau iechyd a lles mewn fformat cyfeillgar a hygyrch gydag egwyl i gael lluniaeth a rhwydweithio cyn cael yr ail hanner mwy rhyngweithiol megis arddangosiad neu "rhagflas" i gwrs gydag amser yn cael ei neilltuo i ofyn cwestiynau. Roedd y darlithwyr nid yn unig yn arbenigwyr yn eu maes ond roedd ganddynt hefyd brofiad a gwybodaeth helaeth a ddefnyddiasant yn y gweithle.

Cafwyd adborth ardderchog gan y cynrychiolwyr, gyda rhai yn gwneud sylw am y "testunau defnyddiol a oedd yn gwneud i chi feddwl" sydd wedi helpu i "wella (eu) harferion gweithio dyddiol". Llwyddodd y darlithoedd i ehangu mynediad i'r wybodaeth a'r arbenigedd a geir ym Mhrifysgol Bangor a Choleg Llandrillo. Fe wnaethant arddangos yr hyn sydd gan Brifysgol Bangor a Choleg Llandrillo i'w gynnig gan ennyn diddordeb gyda dros 1,300 o bobl yn mynychu cyn belled. Drwy gyfrwng y cyfleoedd i rwydweithio fe wnaeth y cynrychiolwyr hefyd feithrin cysylltiad gyda'r rheini o wahanol feysydd a chanfod cyfleoedd newydd.

Meddai Dr Keith Griffiths, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: "mae'r gyfres hon o ddarlithoedd yn berthnasol dros ben i bobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd, gan ddarparu addysg i weithwyr gofal iechyd ac i ddinasyddion yn gyffredinol. Dylai penawdau'r pynciau fod o ddiddordeb i'r boblogaeth gyfan yn eu hysbysu am faterion iechyd a lles amlwg iawn".

Mae'r rhaglen ar gyfer y gyfres bresennol i'w gweld [yma](#). Os oes gennych chi ddiddordeb mewn mynychu cwblhewch y ffurflen gofrestru neu cysylltwch â ni!